

*Patrwm cyflwyno: O fis Mai i fis Hydref
O fis Tachwedd i fis Ebrill*

Disgrifiad o'r cymhwyster

Mae'r cymhwyster MBA (F61) ar gyfer rheolwyr canol ac uwch reolwyr gweithredol sydd am ddatblygu eu gyrfaoedd. Mae'n canolbwyntio ar ddadansoddi strategol, sgiliau rhyngddisgyblaethol, ysgogi deallusol a llunio barn annibynnol ac mae'n cwmpasu themâu craidd megis ymgysylltu'n feirniadol, rhoi damcaniaeth ar waith ac ymwybyddiaeth o effaith fyd-eang. Mae'r disgyblaethau craidd yn cynnwys astudiaethau ac ymddygiadau sefydliadol, cyfrifyddu a chyllid, marchnata, gweithrediadau a chudd-wybodaeth busnes. Mae'r rhaglen yn fodiwlaid, yn hyblyg ac wedi'i dylunio i alluogi rheolwyr i asesu safbwyntiau lluosog yn feirniadol a cheisio defnyddio eu dealltwriaeth newydd o reoli fel ymarferwyr myfyriol.

Disgrifiad o'r modiwl

Mae modiwl BB874 Cyllid i wneud penderfyniadau strategol yn fodiwl newydd gorfodol gwerth 15 credyd fel rhan o'r cymhwyster MBA newydd. Diben y modiwl hwn yw galluogi dysgwyr i ddefnyddio llu o dechnegau gwneud penderfyniadau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd sy'n ymwneud â rheoli cyllid. Yn hyn o beth, mae'n wahanol i BB831, sef y modiwl cyllid blaenorol, gan ei fod yn ceisio cyflwyno sgiliau cyllid sy'n ddefnyddiol i amrywiaeth ehangach o reolwyr busnes. Ei nod yw sicrhau sgiliau ymarferol penodol, megis defnyddio Excel a datrys problemau, a hynny er mwyn helpu myfyrwyr i wneud cynnydd yn y gweithle. Rhoddir pwyslais ar helpu'r myfyrwyr i ddatblygu gallu i drin data a gwybodaeth arall er mwyn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau synhwyrol, gydag enghreifftiau ym maes marchnata, gweithrediadau ac adnoddau dynol, ynghyd â sefyllfaoedd ariannol confensiynol.

Bydd y modiwl yn trafod tri phrif faes: gwneud penderfyniadau, marchnadoedd ariannol, rhyngweithio strategol a dadansoddi data.

Bydd yr uned gyntaf ar wneud penderfyniadau yn trafod meysydd megis macro-economeg sylfaenol, rhagweld, technegau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys dadansoddiad o gyfraniad, fframweithiau CAMPUS a choed penderfyniadau, yn ogystal â thechnegau arfarnu buddsoddi.

Bydd yr ail uned yn trafod gwarannau allweddol, cyfranddaliadau, bondiau a deilliadau, yn ogystal â'r sefydliadau a chwmnïau sy'n ymwneud â'r marchnadoedd ariannol.

Bydd yr uned olaf yn trafod materion ymddygiadol a'r ffaith nad yw rheolwyr yn gwneud penderfyniadau heb ystyried cwmnïau eraill. Cyflwynir theori gemau yn hanner cyntaf yr uned hon, sef pwnc rheoli nas addysgwyd gan FBL. Bydd ail hanner yr uned hon yn gyflwyniad sylfaenol i ddadansoddi data, yn bennaf gan ddefnyddio Excel.

Anogir y myfyrwyr i ddefnyddio modelau Excel syml wrth gyflwno atebion i Aseiniadau wedi'u Marcio gan Diwtor.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd ôl-raddedig berthnasol mewn pwnc sy'n gysylltiedig â chyllid, neu gymhwyster proffesiynol perthnasol a phrofiad ym maes cyllid
- gwybodaeth am ddatblygiadau cyfredol a diweddar, a phrofiad o faterion ym maes rheoli ariannol, gan gynnwys materion ariannol rhyngwladol ac arferion rheoli ariannol mewn lleoliadau rhyngwladol amrywiol

- profiad diweddar (yn ystod y tair blynedd diwethaf yn ddefnyddol) o fod yn rheolwr canol neu'n uwch-reolwr ym maes cyllid corfforaethol, yn y sector preifat os yn bosibl, neu yn y marchnadoedd ariannol neu o addysgu cyllid
- dealltwriaeth amlwg o weithio ar draws sectorau (e.e. cyhoeddus, preifat ac nid er elw) a swyddogaethau busnes
- profiad o gymhwyso cysyniadau ariannol i sefyllfaoedd go iawn
- gwybodaeth ac ymarfer modelu ariannol a dadansoddi gan ddefnyddio Excel
- tystiolaeth ddiweddar (yn y tair blynedd diwethaf) o sgiliau cyflwyno a hwyluso effeithiol ar lefel ôl-raddedig mewn amgylchedd addysgu a dysgu ar-lein (cydamseredig ac anghydamseredig) ac wyneb yn wyneb
- gallu i gefnogi myfyrwyr ym maes dysgu ar-lein amlgyfrwng gan ddefnyddio cyfarpar megis y rhyngrwyd a chwiliadau'r llyfrgell, podlediadau, rhaglenni meddalwedd ffynhonnell agored a thrafodaethau grŵp cydweithredol ar-lein
- tystiolaeth i gefnogi myfyrwyr i gyflawni canlyniadau dysgu gan gynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth a datblygu eu sgiliau gwybyddol, ymarferol a phroffesiynol
- gallu i roi adborth priodol ar lafar ac yn ysgrifenedig i fyfyrwyr sy'n astudio ar lefel ôl-raddedig ac sy'n rheolwyr gweithredol
- gallu i helpu myfyrwyr i weld perthynas rhwng theori a'u harferion eu hunain a'u helpu i ddatblygu dysgu myfyriol, a goddefgarwch ar gyfer amwysedd yn ogystal â sgiliau a dulliau meddwl yn feiriadol
- tystiolaeth gyfredol neu ddiweddar (yn y tair blynedd diwethaf) o weithio gyda phobl o gyd-destunau diwylliannol gwahanol, gan ddangos dealltwriaeth o safbwyntiau gwahanol yn ymwneud â gwaith, dysgu ac ati.
- profiad o ddatblygu rheolwyr neu fyfyrwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf.

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- MBA
- profiad o addysgu gan ddefnyddio Adobe Connect, Blackboard Collaborate neu adnoddau SAU pwrpasol eraill
- profiad, presennol neu ddiweddar, o hyfforddi rheolwyr.

Gwybodaeth ychwanegol

Defnyddir dull cymysg ar gyfer y modiwl hwn gan gynnwys saith tiwtorial ar-lein sy'n para awr ac un diwrnod yn yr ysgol am saith awr.

Disgwylir i chi wneud y canlynol:

- rhedeg yr ysgol ddydd wyneb yn wyneb a thiworialau ar-lein gan ddefnyddio Adobe Connect
- hwyluso fforymau ar-lein
- marcio'r aseiniadau gan gynnwys Aseiad Diwedd Modiwl (EMA)

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	15
Nifer yr aseiniadau a gyflwynwyd gan y myfyriwr:	2
Dull cyflwyno aseiniadau:	Aseiniad

	wedi'i Farcio gan Diwtor yn unig
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	5
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	7

Nid yw'r strategaeth addysgu ac asesu ar gyfer y modiwl hwn wedi cael ei chymeradwyo eto, ac felly, mae'n bosibl y caiff y wybodaeth ei newid.